PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk

Adolygiad Blynyddol

2014-15

Croeso

Syr Emyr Jones Parry – Canghellor

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Adolygiad Blynyddol Prifysgol Aberystwyth ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-15.

Er gwaethaf yr amgylchedd anodd sy'n newid o hyd, mae'n dda gennyf ddweud bod Aberystwyth yn ymateb i'r heriau allanol, ac yn gwneud penderfyniadau i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Brifysgol.

Fel y rhan fwyaf o brifysgolion, ffioedd myfyrwyr yw ein prif ffynhonnell incwm bellach. O'r herwydd, mae denu myfyrwyr yn fater hollbwysig. Mae disgwyliadau a barn y myfyrwyr wedi dod yn hynod bwysig, wrth reswm. Mae lefelau bodlonrwydd myfyrwyr yn dylanwadu'n fawr ar ddewisiadau myfyrwyr, mewn sector addysg uwch sy'n hynod gystadleuol, ac mae Aberystwyth yn wynebu cystadleuaeth uniongyrchol o du amryw helaeth o sefydliadau.

O'r herwydd, mae Aber yn buddsoddi er mwyn cynnig y profiad gorau posib i'r myfyrwyr. Croesawyd y preswylwyr cyntaf i ddatblygiad preswyl £45m Fferm Penglais ddechrau 2015. Bellach, mae rhagor o ystafelloedd wedi eu darparu i'r myfyrwyr, mewn llety o'r radd flaenaf sy'n arwain y sector.

Yn 2014-15 bu rhagor o fuddsoddi yn ein hystafelloedd dysgu hefyd, er mwyn darparu'r dechnoleg ddiweddaraf i'r myfyrwyr ac i'r staff academaidd. Gall y myfyrwyr yn awr lawrlwytho fideos o ddarlithoedd er mwyn edrych eto ar bwyntiau allweddol y gallent fod wedi eu methu, a gallant gyflwyno eu gwaith cwrs i gyd ar-lein. Mae Addysg Uwch yn sicr wedi newid ers fy nyddiau i!

Rydym hefyd wedi bod yn adolygu'r cyrsiau yr ydym yn eu cynnig er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac yn ymdrin â materion sydd o ddiddordeb i'r myfyrwyr. Mae hyn, ynghyd â dysgu rhagorol a arweinir gan ymchwil, yn cynnig profiad academaidd o safon uchel i'r myfyrwyr. Yn ôl y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a gyhoeddwyd yn 2014, mae 95% o ymchwil Aberystwyth o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch. Y rhai sy'n arwain yr ymchwil sydd, i bob pwrpas, yn dysgu'r myfyrwyr.

Mae croeso cynnes traddodiadol Aber yn parhau. Yng nghanol cefn gwlad godidog gorllewin Cymru, rydym yn gyson yn cael ein barnu'n un o'r mannau mwyaf diogel yn y DG i fod yn fyfyriwr. Mae'r amgylcheddau academaidd, cymdeithasol a ffisegol gyda'i gilydd yn cynnig profiad bendigedig a fydd yn newid bywydau ein myfyrwyr am byth. Does ryfedd felly fod eu hamser yn y Coleg ger y Lli mor bwysig i'n myfyrwyr.

Mae amgylchedd heriol yn wynebu'r Brifysgol, ond bu'n ymaddasu i ddigwyddiadau byth ers ei sefydlu yn 1872. Dyna pam yr ydym yn sicrhau hefyd fod y staff a'r myfyrwyr yn mynd i'r afael â'r heriau gwirioneddol sy'n wynebu ein byd. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n ddiwyro ar ddarparu'r dysgu gorau, yr ymchwil gorau, a'r profiad gorau i'n myfyrwyr – er budd Aberystwyth, Cymru, a'r gymuned ryngwladol.

Emyr Jones Parry

Yr Athro April McMahon – Is-Ganghellor

Croeso i Adolygiad Blynyddol Prifysgol Aberystwyth ar gyfer 2014-15!

Busnesau pobl yw prifysgolion – felly mae'n hollbwysig dangos ein bod yn gyflogwr da. Mae Llywodraeth Cymru'n dyfarnu ei Safon Iechyd Corfforaethol i sefydliadau sy'n dangos rhagoriaeth wrth hybu iechyd a lles, ac rwyf yn hynod falch bod Aberystwyth wedi cyrraedd lefelau Efydd ac Arian mewn llai na blwyddyn. Er mwyn gofalu am ein staff a'n myfyrwyr mae'n rhaid i ni hefyd flaenoriaethu cydraddoldeb – ac yn ystod mis Medi 2014, enillodd Prifysgol Aberystwyth Wobr Efydd Athena SWAN i gydnabod ein hymrwymiad i hybu gyrfaoedd menywod ym myd gwyddoniaeth; a hefyd lefel Efydd Nod Siarter Cydraddoldeb y Rhywiau (GEM) yr Uned Herio Cydraddoldeb, am hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn gyrfaoedd ym myd y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol. Roeddem yn un o ddim ond 5 prifysgol yn y DG a enillodd Nod Siarter GEM yn ei flwyddyn gyntaf.

Mae'n hollbwysig hefyd sicrhau bod ein graddedigion yn hynod gyflogadwy – a dyna sydd wrth wraidd rhaglen uchelgeisiol a blaengar AberYmlaen, sy'n cynnig profiad gwaith perthnasol a defnyddiol. Mae AberYmlaen yn awr yn cynnwys Cynllun Interniaethau i Raddedigion sy'n cynnig lleoliadau gwaith am flwyddyn; a Chynllun Haf lle gall israddedigion yr ail a'r drydedd flwyddyn gael swyddi haf cyflogedig llawn amser; a'r Cynllun Graddedigion AberYmlaen sy'n cynnig profiad gwaith cyflogedig i israddedigion diweddar ar gampysau'r Brifysgol a'r cyfle i fanteisio ar gyfres o weithdai i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu helpu i lwyddo mewn marchnad swyddi gystadleuol ar ôl graddio. Heb os nac oni bai, cyfrannodd AberYmlaen at y gwelliant cryf yng nghyflogadwyedd ein myfyrwyr y llynedd; roedd 6% yn fwy o raddedigion mewn swyddi neu'n astudio ymhellach 6 mis ar ôl graddio na'r flwyddyn cyn hynny, a 9% yn fwy mewn swyddi lefel graddedigion, o gymharu â gwelliant o ddim ond 1% ledled y DG.

Ym mis Rhagfyr 2014, daeth y Nadolig yn gynnar i Aber, gyda dau ddarn o newyddion da ym maes ymchwil. Yn gyntaf, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Cymru Jane Hutt mai Campws Arloesi a Menter Aberystwyth fyddai'r prosiect cyntaf gwerth miliynau o bunnau i fod yn rhan o raglenni cyllid 2014-20 yr Undeb Ewropeaidd. Bydd prosiect y Campws Arloesi a Menter yn werth £40.5m, gan gynnwys buddsoddiad o £20m gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, £12m gan Gyngor Ymchwil y Gwyddorau Biotechnegol a Biolegol (BBSRC) ac £8.5m gan y Brifysgol. Bydd yr adnodd newydd arfaethedig hwn yng Ngogerddan, a fydd o'r radd flaenaf, yn golygu y gall cwmnïau ac ymchwilwyr weithio ar brosiectau ar y cyd i hybu'r bio-economi, a chreu cynhyrchion, gwasanaethau a chwmnïau deillio newydd arloesol ym meysydd bwyd cynaliadwy, iechyd, biotechnoleg ac ynni adnewyddadwy.

Llwyddasom hefyd i wella'n sylweddol ein perfformiad yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Roedd 95% o'r hyn a gyflwynwyd gennym o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch, ac roedd ymchwil sy'n arwain y byd (4*) ym mhob un o'r 17 Uned Asesu. O gyfuno effaith, ansawdd cyhoeddiadau a'r amgylchedd ymchwil, ac o ystyried nifer y staff a gyflwynwyd, mae Aberystwyth yn y 50 uchaf o blith 154 yn y DG, ac mae'n arbennig o gryf o ran effaith ei hymchwil. Felly, mae ymchwil Aberystwyth nid yn unig yn rhagorol yn ei rinwedd ei hun, ond mae hefyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Yn olaf, mae'r cydweithio a fu rhyngom a'r myfyrwyr wedi bod yn allweddol yn ystod 2014-15, ac un enghraifft wych o hynny yw llwyddiant cynyddol ein Gwobrau Dysgu dan Arweiniad y Myfyrwyr – cafwyd 1113 o enwebiadau eleni, sy'n anhygoel! Cafwyd rhyfel bychan ar Twitter ar y noson rhwng IBERS a Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ynglŷn â phwy fyddai'n ennill gwobr Adran y Flwyddyn. A minnau'n ysgolhaig ym maes y dyniaethau, roeddwn yn eithaf balch o agor yr amlen a gweld mai'r enillydd oedd – Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol! Pa adran bynnag sydd agosaf at eich calon, rwy'n mawr obeithio y cewch hyd i newyddion da am ei hynt yn y tudalennau hyn.

Llywodraethu

Y Cyngor yw prif gorff llywodraethu y sefydliad, ac mae'n gyfrifol am reoli busnes gweinyddol ac ariannol a materion eraill y sefydliad yn unol â'i amcanion, fel y'u nodir yn y Siarter Brenhinol.

Mae nifer o is-bwyllgorau'n gwneud llawer o'r gwaith manwl cychwynnol ar ran y Cyngor, yn eu plith: y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, a'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb. Mae pob un o'r is-bwyllgorau hyn yn cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor ar eu penderfyniadau, mae iddynt gyfansoddiad ffurfiol a'u cylchoedd gorchwyl eu hunain, a daw cyfran o'u haelodau o blith Aelodau Annibynnol y Cyngor.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i amlygu arfer da ym mhob agwedd ar ei llywodraethu corfforaethol, ac i arfer y gwerthoedd craidd a'r saith prif elfen gysylltiedig o lywodraethu a nodir yng Nghod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) (Rhagfyr 2014).

Yn ystod gwanwyn 2015, aeth y Cyngor ati i adolygu effeithiolrwydd llywodraethu i gyd-fynd â Chod Llywodraethu Addysg Uwch newydd CUC. Mae'r Cyngor yn arfer ymagwedd o wella llywodraethu a pherfformiad y sefydliad yn barhaus, ac mae nifer o welliannau a gynigiwyd yn yr adolygiad mwyaf diweddar o effeithiolrwydd llywodraethu bellach yn mynd rhagddynt.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2014–15, cyfarfu'r Cyngor chwe gwaith. Ar gyfartaledd 84% oedd presenoldeb yr holl aelodau.

Ni chaiff aelodau'r Cyngor dâl nac unrhyw lwfans o ganlyniad i'w haelodaeth. Fodd bynnag gellir ad-dalu gwariant parod ar gyfraddau cymeradwy am unrhyw ddyletswyddau yr ymgymerir â hwy fel aelod o'r Cyngor. Yn ystod 2014-15, ad-dalwyd cyfanswm o £16,053 i 12 aelod o'r Cyngor.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymdrecha i fod yn gynhwysol, gan werthfawrogi natur amrywiol ei staff, y myfyrwyr a'r gymuned. Caiff pob lle gwag ar gyfer Aelodau Annibynnol o'r Cyngor ei hysbysebu'n allanol, a chroesewir yn arbennig ddatganiadau o ddiddordeb o blith grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Aelodau'r Cyngor ym mlwyddyn academaidd 2014–15

Aelodau Annibynnol

Ex-officio

Syr Emyr Jones Parry, Canghellor a Chadeirydd y Cyngor
Mrs Elizabeth France CBE, Dirprwy Ganghellor
Miss Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor
Dr Glyn Rowlands, Dirprwy Ganghellor
Dr Timothy Brain OBE, Trysorydd
Ms Anne Davies
Mrs Janet Davies
Mr Keith Evans
Mr Richard John
Yr Athro Wynne Jones OBE
Mr Ian MacEachern OBE
Yr Athro Gareth Roberts
Syr John Skehel

Aelodau Staff / Myfyrwyr

Ex-officio

Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor
Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor

Aelodau'r Senedd

Yr Athro Neil Glasser
Dr Joseph Ironside
Yr Athro David Trotter †

Aelod o'r Staff Anacademaidd

Mr Nigel Thomas

Aelodau sy'n Cynrychioli'r Myfyrwyr

Mr Lewis Donnelly, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth *[o 01 Gorffennaf 2015]*
Mr Jacob Ellis, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth *[tan 30 Mehefin 2015]*
Miss Hanna Merrigan, Llywydd UMCA *[o 01 Gorffennaf 2015]*
Miss Miriam Williams, Llywydd UMCA *[tan 30 Mehefin 2015]*

† *bu farw Awst 2015*

Gwobrau ac Anrhydeddau

Cyrhaeddodd Prifysgol Aberystwyth y rhestr fer mewn pedwar categori yng Ngwobrau Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Times Higher Education 2015 (THELMAs): Menter Cyfnewid/ Trosglwyddo Gwybodaeth, Tîm Ystadau Eithriadol, Tîm Adnoddau Dynol Eithriadol, a Thîm Llyfrgell Eithriadol. Hefyd cyrhaeddodd yr Ysgol Rheolaeth a Busnes restr fer 'Ysgol Fusnes y Flwyddyn' yng Ngwobrau Addysg y Times Higher 2014.

THE LEADERSHIP & MANAGEMENT AWARDS 2014 SHORTLISTED

Ym mis Tachwedd 2014, fel rhan o Gynllun Gwobrau Cenedlaethol EcoCampus, dyfarnwyd tystysgrif Arian i Brifysgol Aberystwyth i gydnabod y gwaith i wella cynaliadwyedd amgylcheddol ei champysau. Mae EcoCampus yn system rheoli amgylcheddol a chynllun gwobrwyo ar draws y Deyrnas Gyfunol ar gyfer y sectorau addysg uwch a phellach. Yn dilyn ei llwyddiant yn cyflawni statws Arian, mae EcoCampus wedi cymeradwyo Prifysgol Aberystwyth i symud ymlaen i statws Aur ac, yn y pen draw, Platinwm.

Dathlu dyfarnu tystysgrif Arian EcoCampus; Ymgynghorydd Ynni Prifysgol Aberystwyth Janet Sanders (canol) â'i chydweithwyr Chris Woodfield (chwith) a James Pickerin.

Ym mis Gorffennaf 2015, Campws Penglais Prifysgol Aberystwyth oedd y campws Prifysgol cyntaf yng Nghymru i dderbyn Gwobr Y Faner Werdd. Mae Gwobr Y Faner Werdd yn bartneriaeth ar draws y Deyrnas Gyfunol, sy'n cael ei chyflwyno yng Nghymru gan Cadwch Cymru'n Daclus gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd yn cydnabod parciau a mannau gwyrdd o safon uchel. Mae'r beirniaid yn arbenigwyr mewn gofod gwyrdd ac asesu safleoedd yn erbyn wyth maen prawf llym sy'n cynnwys safonau garddwriaethol, glendid, cynaliadwyedd a chyfranogiad y gymuned.

2014 The CIPD People Management Awards Finalist

Aberystwyth oedd yr unig brifysgol i gyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Rheoli Pobl CIPD. Gosodwyd y tîm Adnoddau Dynol ar restr fer y categori Menter Cysylltiadau Gweithwyr Gorau.

Yr Athro Athole Marshall

Gosodwyd Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ar restr fer categori Effaith Economaidd yng Ngwobrau Partneriaeth Busnes ac Addysg *Insider Business* 2014 am ei gwaith ar geirch.

Gosodwyd y tîm sy'n datblygu hesg eliffant (*miscanthus*) yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ar restr fer gwobr Cyfraniad i Gymdeithas yng Ngwobrau Effaith RCUK/PraxisUnico 2015 ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio.

Dr John Clifton-Brown o flaen planhigion miscanthus

Ym mis Medi 2014, cyrhaeddodd Aberystwyth restr fer dau gategori yng Ngwobrau Cadwedigaeth Ddigidol 2014, sy'n dathlu cyfraniadau sylweddol ac arloesol i sicrhau y bydd ein cof digidol ar gael yn y dyfodol.

Ym mis Hydref, llwyddodd Prifysgol Aberystwyth i adnewyddu ei statws Masnach Deg gyda'r Sefydliad Masnach Deg. Gweithiodd y Brifysgol yn agos gydag Undeb Myfyrwyr Aberystwyth i sicrhau'r statws hwn sy'n cefnogi datblygiad, amodau gweithio a thelerau masnachu teg i ffermwyr a gweithwyr.

Green Gown Awards 2015

Finalist

Bu Gwasanaethau Croeso Prifysgol Aberystwyth yn dathlu ar ôl cael eu cynnwys ar restr fer Gwobrau'r Gynau Gwyrdd 2015. Roedd Aberystwyth yn rownd derfynol categori Bwyd a Diod y Gwobrau sy'n cydnabod llwyddiant prosiectau cynaliadwyedd mewn sefydliadau addysg uwch ar draws y Deyrnas Gyfunol.

Ym mis Mehefin 2015 enillodd Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig *Variety Cup* y Sefydliad Botaneg Amaethyddol Cenedlaethol (NIAB) am y math glaswellt AberGreen.

Cafodd AberGreen ei gynnwys yn Rhestr Gymeradwyol annibynnol y diwydiant am y tro cyntaf yn 2011. Dyma'r ail amrywiaeth porthiant erioed i gael ei gydnabod â gwobr y *NIAB Variety Cup*, yn dilyn dyfarnu Glaswellt Siwgr Uchel AberDart yn enillydd cyntaf tîm Aberystwyth yn 2003.

Yr Athro Mike Gooding Cyfarwyddwr IBERS yn derbyn Variety Cup y NIAB yn CEREALS 2015, gyda'r Athro Athole Marshall IBERS, William Gilbert Germinal MD a Dr Tina Barsby, Prif Weithredwr NIAB

Cyrhaeddodd Prifysgol Aberystwyth y rhestr fer ar gyfer gwobr Technoleg, Arloesi a Chymhwyso yng Ngwobrau Cymdeithas y Rheolwyr a Gweinyddwyr Ymchwil (ARMA) am waith ym maes moeseg ymchwil.

Yr Athro David Kay yn derbyn y wobr

Ym mis Mehefin 2015 enillodd Canolfan Ymchwil yr Amgylchedd ac Iechyd (CREH) wobr Offer Meddalwedd yn ystod Gwobrau 'Effaith' Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2015, a gynhaliwyd gan Fforwm Diwydiant Dŵr y Deyrnas Gyfunol.

Derbyniodd CREH y wobr am waith y tîm ar safonau microbaidd ar gyfer dyfroedd hamdden, gan gynnwys modelu amser real o grynodiadau bacteraidd i gydymffurfio a'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi.

Ym mis Mawrth 2015, enillodd delwedd o robot yn 'gwrando' ar fabi cyn ei eni wobr y categori 'Pobl' yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Gwyddoniaeth Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Peirianyddol a Ffisegol (EPSRC) eleni.

icub10 Y Darganfyddiad Mwyaf

Tynnwyd y llun, "Y Darganfyddiad Mwyaf", gan Sandy Spence yn yr Adran Gyfrifiadureg ac mae'n cynnwys mam feichiog, Ayesha Jones, a robot dynol yr Adran, yr iCub.

Mae ymchwil Grŵp Roboteg Ddeallus yr Adran Gyfrifiadureg wedi'i ysbrydoli gan ddatblygiad babanod yn ystod cyfnodau cynnar iawn bywyd. Mae'r grŵp yn gweithio gyda seicolegwyr a niwrowyddonwyr i ddeall sut mae plant yn datblygu a dysgu, hyd yn oed o'r cyfnod cyn geni.

Yn y Cyfryngau

Dr Laurence Tyler

Cafodd y rhan bwysig a chwaraeodd gwyddonwyr y gofod yn Aberystwyth wrth ddod o hyd i weddillion Beagle 2, y glaniwr gofodol a gollwyd ar y ffordd i'r Blaned Mawrth, ei gofnodi'n eang yn y cyfryngau ym mis Ionawr 2015. Darparwyd delweddau 3D manwl o'r ardal lle y credwyd i Beagle 2 lanio gan Dr Laurence Tyler a Dr Matt Gunn o'r Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol grymus, 'Shape from Shading', a delweddau a gymerwyd gan y camera HiRISE ar Long Ofod NASA – *Mars Reconnaissance Orbiter*. Roedd y sylw a roddwyd i hyn, yn ogystal â chydnabod cyfraniad y diweddar Athro David Barnes i daith Beagle 2, yn cynnwys eitemau ar y BBC, yn yr *Independent*, *Huffington Post*, *Daily Mail*, *Western Mail* a'r *Daily Post*.

Rhoddwyd dipyn o sylw i ymchwil gan wyddonwyr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig sy'n gweithio ar y cyd â gwyddonwyr yn Dijon, Ffrainc i geisio datrys problem cwrw sy'n blasu'n wael, ac ymddangosodd eitemau ar BBC Online, ITV, *Western Mail*, *Daily Post*. Mae bragwyr cwrw yn wynebu problem anodd. Mae lefel uchel gweithgarwch y burum a ddefnyddir i gynhyrchu'r cwrw yn creu llawer o wres yn ystod y broses, gan godi'r tymheredd ar waelod y cafnau bragu. Yn anffodus mae'r burum yn dioddef yn y tymheredd uchel hwn ac mae'r difrod a wneir i'r burum yn rhoi blas cas i'r cwrw.

Ym mis Tachwedd, ymddangosodd Dr Gareth Norris, uwch ddarlithydd yn y Gyfraith a Throseddeg, ar raglen Sianel 5, '*Jack the Ripper: The Missing Evidence*' lle cyflwynodd broffil unigolyn newydd y drwgdybir sy'n euog o lofruddiaethau anfad 'Jack the Ripper' yn Whitechapel, Llundain. Ystyriodd y rhaglen dri degawd o waith ymchwil a wnaed gan y newyddiadurwr Christer Holmgren, a arweiniodd yn y pen draw at dyst, a elwid yn Charles Cross, neu Charles Allen Lechmere a rhoi ei enw iawn iddo.

Y gerddorfa robotig yn perfformio yn Narlithoedd Nadolig y Sefydliad Brenhinol 2014

Cafodd cerddorfa robotig a adeiladwyd gan staff yn yr Adran Cyfrifiadureg sylw yn Narlithoedd Nadolig y Sefydliad Brenhinol am 2014. Chwaraeodd y gerddorfa, sy'n cynnwys organ bib, sef cydrannau sgrap o sugnwr llwch, gwahanol gydrannau plymio, glockenspiel plentyn wedi ei addasu i chwarae'n awtomatig ac allweddell electronig, ei rhan mewn perfformiad robotig o thema *Dr Who* yn ystod diweddglo'r darlithoedd a ddangoswyd ar BBC4 ar Nos Galan.

Ian Izett (chwith) a Dave Price, a grëodd gerddorfa robotig Aberystwyth

Yr Athro Colin McInnes

Ym mis Ionawr 2015, yn sgil argyfwng Ebola yng ngorllewin Affrica, rhoddwyd sylw eang i alwadau am ragor o gyllid i Fudiad Heddwch y Byd a wnaed gan aelodau cymuned ysgolheigaidd iechyd byd-eang. Roedd Yr Athro Colin McInnes, Cyfarwyddwr Canolfan Iechyd a Chysylltiadau Rhyngwladol, Dr Christian Enemark, Darllenydd ym Maes Iechyd Byd Eang a Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a'r fyfyrwraig PhD Clare Wenham, yn gyd-lofnodwyr i lythyr agored ar yr argyfwng Ebola a gyhoeddwyd yn *The Lancet* ac fe adroddwyd am eu cyfraniad yn y *Western Mail.*

Etholwyd deuddeg o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth i Dŷ'r Cyffredin yn San Steffan yn Etholiad Cyffredinol 2015.

Mae Mike Wood AS, Liz Saville-Roberts AS a Will Quince AS yn aelodau newydd, tra bod Guto Bebb AS, Rehman Chishti AS, Glyn Davies AS, yr Arglwyddes Sylvia Hermon AS, Dan Jarvis AS, Cyrnol Bob Stewart AS, Gareth Thomas AS, a Mark Williams AS yn dychwelyd i San Steffan.

Yn ôl *The Guardian*, mae Kate Hamer a raddiodd mewn Ysgrifennu Creadigol o Brifysgol Aberystwyth yn un o awduron mwyaf addawol 2015; fe ymddangosodd ar restr 'New Faces of Fiction', sef rhestr o nofelwyr sydd wedi cyhoeddi am y tro cyntaf ac sy'n debygol o wneud argraff. Disgrifir stori Kate, *The Girl in the Red Coat*, fel stori sy'n ailadrodd hanes yr Hugan Goch Fach a ysbrydolwyd gan ddelwedd o ferch fach mewn cot goch ar goll yn y coed.



Ym mis Gorffennaf 2015, daeth Dr Hannah Dee, o Adran Cyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth, yn ddegfed ar restr *Computer Weekly* o'r gwragedd mwyaf dylanwadol ym maes cyfrifiadureg yn y Deyrnas Gyfunol. Dr Dee yw'r academydd uchaf ar y rhestr.

Mae Dr Dee yn ddirprwy gadeirydd BCSWomen, Sefydliad Siartredig Technegol Gwybodaeth i fenywod, ac fe'i chydnabyddir am ei gwaith yn sefydlu BCSWomen Lovelace Colloquium, prif gynhadledd y Deyrnas Gyfunol i israddedigion benywaidd, sydd nawr yn ei seithfed flwyddyn. Meysydd ei hymchwil yw golwg gyfrifiadurol ar gyfer dadansoddi ymddygiad pobl, canfod cysgodion a rhesymu am gysgodion, ac agweddau myfyrwyr tuag at astudio cyfrifiadureg.

Cafodd Cymrawd Er Anrhydedd ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef A J S "Bill" Williams, ei enwi yn un o 175 o Wynebau Cemeg y Gymdeithas Gemeg Frenhinol ym mis Rhagfyr 2014.

Lansiwyd 175 o Wynebau Cemeg gan Gymdeithas Frenhinol Cemeg yn 2012 i ddathlu ei 175ed pen-blwydd ym mis Chwefror 2016.

Mae unigolion eraill a restrwyd yn cynnwys Joseph Priestley, sy'n fwyaf adnabyddus am ddarganfod ocsigen, Marie Curie, y person cyntaf i dderbyn dwy Wobr Nobel mewn dau faes gwyddonol gwahanol, a Michael Faraday, y cemegydd a'r ffisegydd a gyfrannodd yn sylweddol i astudio electromagnetedd a electrocemeg.

Cydnabyddir Bill yn benodol am y gwaith a wnaeth yn addysgu mwy na 80,000 o blant ysgol yn ystod ei yrfa hir ym Mhrifysgol Aberystwyth o 1950-2011.

Creu Cyfleoedd

Chwalu rhwystrau at gael mynediad, cefnogi myfyrwyr a staff i lwyddo a thyfu, gwreiddio cyflogadwyedd ar draws ein cwricwlwm a hyrwyddo profiadau sy'n caniatáu i'n myfyrwyr brofi a datblygu eu sgiliau, gwerthfawrogi pobl a gwneud y gorau o'u potensial, gan adlewyrchu cyfrifoldeb cymdeithasol ym mhob peth a wnawn.

ABER

'Aber Ymlaen'

Ym mis Ionawr 2015 lansiodd Prifysgol Aberystwyth raglen uchelgeisiol a dyfeisgar i gynnig profiad gwaith defnyddiol a pherthnasol i fyfyrwyr cyfredol a graddedigion diweddar.

Mae AberYmlaen yn galluogi cyfranogwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau gwerthfawr, trosglwyddadwy ac mae'n cefnogi cydnabyddiaeth i'r sgiliau hyn er mwyn i'r cyfranogwyr deimlo'n fwy hyderus wrth gamu i'r farchnad swyddi ar ôl graddio.

Mae Cynllun Haf AberYmlaen ar agor i israddedigion yn yr ail a'r drydedd flwyddyn ymgymryd â phrofiad gwaith amser-llawn, cyflogedig ledled y Brifysgol dros fisoedd yr haf.

Mae Cynllun Graddedigion AberYmlaen yn cynnig profiad gwaith cyflogedig i israddedigion diweddar ar gampysau'r Brifysgol a'r cyfle i fanteisio ar gyfres o weithdai i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth a fydd yn eu helpu i lwyddo mewn marchnad swyddi gystadleuol ar ôl graddio.

Mae Cynllun Interniaeth AberYmlaen yn cynnig cyfle amhrisiadwy i raddedigion diweddar ymgymryd ag interniaeth gyda chyflog a fydd yn eu cyflwyno i fyd heriol a chyffrous y sector Addysg Uwch. Ceir cyfleoedd o fewn nifer o ddisgyblaethau yn y Brifysgol sy'n ddelfrydol i raddedigion uchelgeisiol a thalentog sy'n dymuno cymryd y camau cyntaf at sicrhau gyrfa lwyddiannus mewn Addysg Uwch.

Athena SWAN Bronze Award

Ym mis Medi 2014, derbyniodd Prifysgol Aberystwyth ddau ddyfarniad yn cydnabod ei hymrwymiad i gefnogi cyfle cyfartal i bawb. Y cyntaf oedd Dyfarniad Efydd Siarter Athena SWAN i gydnabod ei hymrwymiad i hyrwyddo gyrfaoedd menywod mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth (STEMM) mewn addysg uwch ac ymchwil. Yr ail oedd safon Efydd Marc Siarter Cydraddoldeb y Rhywiau (GEM) yr Uned Herio Cydraddoldeb i gydnabod cynnydd y Brifysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb i'r rhywiau mewn gyrfaoedd yn y celfyddydau, dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol ym maes addysg uwch.

"Un o'r pecynnau gorau o wobrau, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau yn y Deyrnas Gyfunol, gwerth hyd at £15,000"

Rhwng mis Medi 2014 a mis Ebrill 2015 cyflawnodd Prifysgol Aberystwyth ddyfarniadau Efydd ac Arian y Safon Iechyd Corfforaethol, marc ansawdd hyrwyddo iechyd yn y gweithle Llywodraeth Cymru.

Ar ôl derbyn y Dyfarniad Arian, dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Prifysgol Aberystwyth, Heather Hinkin: "Mae hwn yn newyddion gwych. Mae derbyn y Dyfarniad Arian o fewn llai na blwyddyn i dderbyn y Dyfarniad Efydd yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd go iawn. Caiff llawer o waith rhagorol ei wneud yma ym Mhrifysgol Aberystwyth i gynyddu a hybu iechyd a lles ymysg staff a myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth straen, hyrwyddo dewisiadau bwyd iach yn ein llefydd bwyta, y fenter Ffit ac Iach a chefnogi pobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu."

Heather Hinkin

Ym mis Rhagfyr 2014, llwyddodd y garfan gyntaf o staff Prifysgol Aberystwyth i gwblhau Rhaglen Datblygu Menywod *Springboard*. Dros gyfnod o bedwar mis, bu ugain o fenywod o'r adrannau gwasanaethau academaidd a phroffesiynol yn dilyn y rhaglen arobryn, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer menywod o bob cefndir, oed a chyfnodau yn eu bywydau sydd am wella eu byd yn y gwaith ac yn y cartref, gan adeiladu'r sgiliau ymarferol a'r hyder i gymryd y camau hyn.

Ym mis Ionawr 2015, dyfarnwyd pum Ysgoloriaeth PhD iCASE gwerth £452,000 i Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Aberystwyth gan y BBSRC (Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol).

Mae Ysgoloriaethau CASE yn grantiau hyfforddi cydweithredol sy'n cynnig hyfforddiant ymchwil heriol o'r radd flaenaf i fyfyrwyr, ac sy'n caniatáu i raddedigion o'r ansawdd gorau mewn biowyddoniaeth wneud gwaith ymchwil sy'n arwain at PhD, o fewn cyd-destun prosiect ymchwil cydweithredol rhwng sefydliadau academaidd â phartner, sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Mae myfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth, Miriam Elin Jones, wedi ennill Ysgoloriaeth drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio doethuriaeth mewn ffuglen wyddonias yn y Gymraeg. Bydd ei hastudiaeth, 'Ymchwil i Gymru Fydd: Y Dyfodol, y Gofod ac Angenfilod mewn Rhyddiaith Gymraeg', yn archwilio elfennau ffuglen wyddonias rhyddiaith Gymraeg gan ddechrau gyda chwedlau'r Mabinogi ac olrhain hanes y genre: mae'n dechrau gyda phroto-ffuglen wyddonias y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a thrafodir ei datblygiad yn ystod yr ugeinfed ganrif hyd heddiw.

Ceffylau Tu Chwithig Allan

Cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth ddwy raglen gradd newydd ar gyfer mis Medi 2015. Lansiwyd BA newydd mewn Addysg a Datblygu Rhyngwladol gan yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes sydd wedi'i anelu at y rheini sydd â diddordeb mewn defnyddio Addysg fel dull datblygu cymunedol a chymdeithasol o bersbectif byd-eang.

Lansiodd Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig y radd gyntaf erioed yn y DG mewn Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol. Ar y rhaglen hon mae myfyrwyr yn astudio sut y caiff ceffylau eu bridio ar gyfer nodweddion uwch, maeth, lles, atgenhedlu, ffisioleg ymarfer, ymddygiad a llesiant, gan gyflwyno damcaniaeth wyddonol sylfaenol a meddygaeth filfeddygol yr anifail.

Mae ystadegau sydd wedi eu rhyddhau gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn ystod Gorffennaf yn dangos cynnydd arwyddocaol yn y dangosydd cyflogadwyedd ar gyfer Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r ganran o fyfyrwyr sydd wedi gadael Prifysgol Aberystwyth ar ôl cwblhau gradd gyntaf llawn amser (h.y. myfyrwyr israddedig llawn amser pan oeddent yn astudio yn Aberystwyth), sydd yn gweithio neu'n ymgymryd ag astudiaethau pellach neu'r ddau, wedi cynyddu o 85.5% ystadegau 2012/13, i 91.4% yn Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch 2013/14.

Tra bod y newid sylweddol hwn wedi digwydd mewn hinsawdd o gynnydd mewn cyflogadwyedd graddedigion newydd ar draws y Deyrnas Gyfunol ac yng Nghymru – cynnydd o un pwynt canran - mae gwelliant Aberystwyth lawer yn uwch na'r tuedd cenedlaethol, gyda chynnydd o chwe phwynt canran.

Yn ogystal, mae'r gyfran o raddedigion cyflogedig Prifysgol Aberystwyth sydd mewn cyflogaeth safon raddedig wedi cynyddu ar gyfradd hyd yn oed yn uwch - naw pwynt canran yn uwch na 2012/13.

Gweithio mewn Partneriaeth

Cydweithredu â phrifysgolion eraill, â'r gymuned leol ac Addysg Bellach, â chyflogwyr a busnesau, ac â'n cyn-fyfyrwyr, meithrin partneriaethau byd-eang, a chyfoethogi profiad ein myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.

Yn ystod wythnos olaf Hydref 2014, gwisgodd myfyrwyr a staff ym Mhrifysgol Aberystwyth rubanau porffor i nodi Wythnos Dyngarwch yng Nghymru ac i fynegi eu gwerthfawrogiad o'r bobl sydd wedi cyfrannu'n ariannol tuag at y Brifysgol ar hyd y blynyddoedd. Mae Prifysgol Aberystwyth yn bartner swyddogol Wythnos Dyngarwch Cymru, sy'n cael ei chydlynu gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru i ddathlu, hybu ac archwilio dyngarwch yng Nghymru.

Agoriad Canolfan Milfeddygaeth Cymru: Chwith i'r Dde, Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, Yr Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AC , a Mr Phil Thomas, Cyfarwyddwr, Iechyd Da.

Cafodd Canolfan Milfeddygaeth Cymru ei hagor yn swyddogol ar ddiwedd Mehefin 2015 gan Ddirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd Llywodraeth Cymru, Rebecca Evans AC. Wedi ei lleoli ar hen safle Canolfan Ymchwil Filfeddygol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), sefydlwyd Canolfan Milfeddygaeth Cymru gan Iechyd Da, consortiwm o bractisiau milfeddygol annibynnol wedi eu lleoli yng Nghymru ynghyd â *Welsh Lamb & Beef Producers Ltd*, a Phrifysgol Aberystwyth.

Joe Hutton yn paratoi ar gyfer clip yr haul ar Svalbard

Gwylio clip yr haul yng Nghnolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Teithiodd gwyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth i Svalbard, Norwy i astudio'r clip llwyr o'r haul a ddigwyddodd ddydd Gwener 20 Mawrth. Mae'r ymchwilwyr Joe Hutton a Nathalia Alzate yn aelodau o Grŵp Ffiseg System Solar Adran Ffiseg Prifysgol Aberystwyth. Ar Svalbard gwnaethant ymuno â thîm rhyngwladol o wyddonwyr o'r Unol Daleithiau, y Weriniaeth Tsiec a'r Almaen i astudio atmosffer yr haul, y corona.

Ac yn Aberystwyth, daeth cannoedd o bobl i Ganolfan y Celfyddydau i wylio'r clip mewn digwyddiad a drefnwyd gan yr Adran Ffiseg i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cafodd Rhwydwaith Pensaernïaeth a Phlanhigion newydd ei sefydlu rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd, gyda chyllid trwy'r Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd (NRN-LCEE) Sêr Cymru, Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhwydwaith Pensaernïaeth a Phlanhigion yn ceisio ailystyried y berthynas rhwng planhigion a phensaernïaeth drwy bio-ddynwared - gwyddor sy'n astudio syniadau gorau natur ac yna'n dynwared y dyluniadau a'r prosesau hynny i ddatrys problemau dynol. Y syniad craidd yw fod natur yn llawn dychymyg o reidrwydd, ac eisoes wedi datrys rhai o'r problemau y mae cymdeithas angen mynd i'r afael â hwy.

Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor 2015/16: (chwith i'r dde) Bethan Roberts, Prif Swyddog Gweithredol Mind Aberystwyth; Fiona Aldred, Prifweithredwr Mind Aberystwyth; Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth; Tim Bennett, Prif Swyddog Busnes & Chyllid a Zoe Berridge, Cydlynydd Iechyd Meddwl Mind Aberystwyth.

Yn ystod Seremonïau Graddio Gorffennaf 2015 cyhoeddwyd mai Mind Aberystwyth yw Elusen y Flwyddyn Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth ar gyfer 2015/16. Bellach yn ei phedwaredd blwyddyn, nod Elusen y Flwyddyn yr Is-Ganghellor yw codi arian hanfodol ar gyfer achos teilwng. Mae Mind Aberystwyth yn darparu cyngor a chymorth i gefnogi unrhyw un sy'n profi problem iechyd meddwl. Mae'n ymgyrchu i wella gwasanaethau, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth wrth i ffigurau diweddar ddangos bod 1 o bob 4 o bobl bob blwyddyn yn profi problem iechyd meddwl.

> *"Un o'r mannau mwyaf diogel yn y DG"*
>
> (*Complete University Guide* y *Daily Mail* 2014)

Chwith i'r dde: Ymchwilwyr IBERS sy'n gweithio ar becynnu cynaliadwy; Abhishek Somani, Ana Winters, Joe Gallager, Sian Davies, David Bryant, Stephen Taylor, Sreenivas Ravella a David Walker.

Mae Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn arwain consortiwm "ADMIT BioSuccInnovate", sef un o fentrau Climate-KIC a ariennir gan Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewrop (EIT), ar y cyd â Reverdia a phartneriaid eraill yn Ewrop. Bydd y Consortiwm, gyda'r cwmni bioburo CIMV, yn ystyried sut y gellir defnyddio deunydd crai lignogelliwlosig sydd ar gael yn lleol, megis gwenith, gwellt neu'r gwair miscanthus, i gynhyrchu pecynnau plastig bioddiraddadwy i'r marchnadoedd prynwrol, a hynny gan gydweithredu â'r cwmni manwerthu, Waitrose, a'r cynhyrchwyr padelli plastig, Sharpak.

Dreigiau Aber yn paratoi ar gyfer ffilmio 'Aber Does Dragons' Den'

Fis Tachwedd 2014, bu disgyblion o Ysgol Penglais, Aberystwyth yn cyflwyno eu syniadau busnes i banel o Ddreigiau fel rhan o fenter i hyrwyddo entrepreneuriaeth gan Ysgol Rheolaeth a Busnes Prifysgol Aberystwyth. Bu pum tîm o ddisgyblion blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio ar gyfer Diploma Atodol Lefel 3 BTEC mewn Busnes yn Ysgol Penglais yn datblygu eu cynigion busnes ac yn derbyn cyngor arbenigol ar gyflwyno syniadau, marchnata, cyllid ac eiddo deallusol gan fentoriaid o'r Brifysgol. Gan ddilyn fformat y rhaglen deledu, Dragon's Den, recordiwyd a golygu'r rhaglen gan staff a myfyrwyr yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Fis Hydref 2015, trefnodd Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth Gynhadledd Cymraeg Proffesiynol i ddisgyblion chweched dosbarth er mwyn amlygu cwrs gradd BA sy'n dysgu sgiliau galwedigaethol gwerthfawr ar gyfer y gweithle. Cafwyd cyflwyniadau gan Dylan Iorwerth, Golygydd Gyfarwyddwr Golwg, Branwen Huws, Pennaeth Marchnata Y Lolfa, a Delyth Jewell, Pennaeth Ymchwil Plaid Cymru yn y Senedd yn Llundain, ac enillydd gwobr Ymchwilydd y Flwyddyn yn San Steffan eleni.

Chwith i'r Dde: Darlithydd Cymraeg Proffesiynol Rhianedd Jewell gyda'r cyfranwyr Delyth Jewell, Dylan Iorwerth a Branwen Huws

Fis Ebrill, bu Prifysgol Aberystwyth yn croesawu pobl ifanc o bob rhan o Geredigion a Phowys i'r Wythnos Adolygu Mathemateg TGAU. Yn ystod y cwrs preswyl pedwar diwrnod, bu dros 80 o bobl ifanc yn rhoi sglein ar eu mathemateg cyn eu harholiadau TGAU yn yr haf.

Dysgu sy'n Ysbrydoli

Gwella ymhellach ar y profiad o'r radd flaenaf y mae ein myfyrwyr yn ei gael drwy fuddsoddi mewn isadeiledd o safon a phortffolio rhagorol sy'n pwysleisio cyflogadwyedd a sgiliau gydol oes, gan roi i'n myfyrwyr y sgiliau a'r wybodaeth i lwyddo yn y dyfodol.

Enillwyr Gwobrau Cwrs Nodedig 2014-15: O'r chwith i'r dde: Dr Jarrett Blaustein (Y Gyfraith a Throseddeg), Mary Jacob (Trefnydd Gwobrau Cwrs Nodedig), Dr Rosemary Cann (Addysg a Dysgu Gydol Oes), Dr Rupert Marshall (IBERS), Yr Athro April McMahon (Is-Ganghellor), Neil Taylor (Cyfrifiadureg), Yr Athro John Grattan (Dirprwy Is-Ganghellor, Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) a Dr Adam Vellender (Mathemateg).

Adran y Flwyddyn: Yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol.

Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol oedd Adran y Flwyddyn yn y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr a gynhaliwyd yn Ebrill 2015.

Undeb y Myfyrwyr, gyda chefnogaeth y Brifysgol, oedd yn cynnal y noson a chafwyd nifer eithriadol - 1,113 - o enwebiadau ar gyfer y gwobrau eleni. Ymhlith y gwobrau a gyflwynwyd oedd Gwobr Addysgu Eithriadol; Cyfraniad Eithriadol i Fywyd y Brifysgol; Staff Cynorthwyol y Flwyddyn; Gwobr Rhagoriaeth mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg; Gwobr Athro Ôl-raddedig; Aelod Staff Newydd y Flwyddyn; Tiwtor Personol y Flwyddyn; Goruchwyliwr y Flwyddyn; Cynrychiolydd Myfyrwyr y Flwyddyn ac Adran y Flwyddyn.

Ceir rhestr gyflawn o'r enillwyr yma: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/04/title-166355-cy.html

Cyhoeddwyd enillwyr Gwobrau Cwrs Nodedig Prifysgol Aberystwyth 2014/15 ym mis Mawrth.

Lansiwyd y Gwobrau gan Dîm E-ddysgu'r Brifysgol yn 2013 er mwyn cydnabod rhagoriaeth mewn addysgu, ac mae modiwlau Blackboard yn cael eu barnu ar bedwar maen prawf; dylunio cwrs, rhyngweithio a chydweithio, asesu a chymorth i ddysgwyr.

Enillydd Gwobr Cwrs Nodedig 2014/15 oedd Dr Rupert Marshall o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, am ei fodiwl 'Gwyddoniaeth Sw'.

Cafodd Dr Rosemary Cann o'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, a Dr Adam Vellender o'r Adran Fathemateg ganmoliaeth uchel am eu modiwlau, 'Seicoleg Dysgu a Meddwl', a 'Hafaliadau Rhannol Differol'.

Rhoddwyd canmoliaeth hefyd i Neil Taylor o'r Adran Gyfrifiadureg, am ei fodiwl 'Methodolegau Hyblyg', ac i Dr Jarrett Blaustein (gyda Kate Williams a Sarah Wydall) o Adran y Gyfraith a Throseddeg ar gyfer y modiwl 'Safbwyntiau Beirniadol ar Garcharu'.

Cynhaliwyd cynhadledd fawr yn edrych ar ddatblygiadau mewn dysgu ac addysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi 2014.

Mi wnaeth *Ysbrydoli Dysgu: Rhannu Technoleg a Hanesion Technoleg* ddenu mwy na 90 o gynrychiolwyr o'r Brifysgol ac ar draws y DG, dros gyfnod o dridiau, i ystyried sut i barhau i wella'r ymchwil a'r dulliau diweddaraf a ddefnyddir wrth ymgysylltu â myfyrwyr, a'u haddysgu.

Mae myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi dangos lefelau uwch o fodlonrwydd ag ansawdd yr addysgu ac adnoddau dysgu yn ôl yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol diweddaraf (NSS) a gyhoeddwyd yn Awst 2014.

Arolwg blynyddol o fyfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf yw'r NSS, â'i nod yw darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr addysg uwch wrth iddynt wneud dewisiadau, a meithrin diwylliant o welliant parhaus ar draws y sector Addysg Uwch.

Dywedodd 83% o fyfyrwyr Aberystwyth eu bod yn fodlon â'r profiad myfyrwyr cyffredinol yn Aberystwyth. Dywedodd 86% o fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth eu bod yn fodlon ag ansawdd yr addysgu ar eu cwrs, i fyny o 84% yn 2013.

> *"2il yn y Deyrnas Gyfunol am gymorth iaith yn ôl arolwg i-graduate 2013"*

Mae pum pwnc academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi eu cynnwys ymhlith goreuon y byd yn ôl cynghrair pynciau'r *QS World University Rankings* a gyhoeddwyd yn Ebrill 2015.

Mae Gwyddor yr Amgylchedd yn ymddangos am y tro cyntaf yn y 300 uchaf yn y byd, yn ogystal â Iaith a Llenyddiaeth Saesneg. Mae Daearyddiaeth ac Amaethyddiaeth a Choedwigaeth yn parhau ymhlith y 150 uchaf; ac mae Gwleidyddiaeth (Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol o 2015) yn dringo i'r 150 uchaf am y tro cyntaf.

Bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, gwerthuswyd 3,467 o brifysgolion a rhestrwyd 971 o sefydliadau yn y *QS World University Rankings* yn ôl pwnc. Dadansoddwyd dros 82 miliwn o ddyfyniadau a briodolwyd, a gwiriwyd darpariaeth 13,132 o raglenni.

Ymchwil â Rhagoriaeth

sy'n Creu Effaith

Datblygu ymhellach ar ein llwyddiannau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth trwy fynd i'r afael â heriau byd-eang, a darparu modd o ddeall y dyfodol trwy gyfrwng y gorffennol.

REF2014
Research Excellence Framework

Gwelwyd gwelliant sylweddol yn ansawdd yr ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2014.

Dengys y canlyniadau bod 95% o'r gwaith ymchwil a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch, ac ym mhob un o'r 17 Uned Asesu a gyflwynwyd cafodd gwaith ymchwil byd-arweiniol, sef 4*, ei nodi.

O gyfuno mesurau effaith, ansawdd y cyhoeddiadau a'r amgylchedd ymchwil, ac ystyried nifer y staff a gyflwynwyd, mae Aberystwyth ymysg y 50 uchaf o blith 154 yn y Deyrnas Gyfunol.

Yn ôl y *Times Higher Education*, mae Aberystwyth yn safle 46 yn y DG am ddwyster ymchwil, ac mae'r Brifysgol hefyd yn y 50 uchaf am ganran yr ymchwil sydd yn y categori uchaf, 4*.

Gwartheg Duon Cymreig

Cyhoeddwyd astudiaeth gan Brifysgol Aberystwyth, sy'n ymchwilio i ddylanwad bridiau traddodiadol a modern o wartheg eidion ar allyriadau methan, yn y cyfnodolyn *PLOSONE*. Hon oedd yr astudiaeth gyntaf i fesur allyriadau methan o wartheg eidion sy'n crwydro'n rhydd ac yn pori ar fathau cyffredin o laswelltir ar lawr gwlad ac yn yr ucheldiroedd.



Yn ddiweddar, cafodd llythyrau a ysgrifennwyd gan Felix Mendelssohn (1809-1847), sy'n fwyaf adnabyddus am ei Ymdeithgan i Briodas, sef y gerddoriaeth a ddefnyddir amlaf mewn seremonïau priodas o hyd, eu hadfer ac maent bellach ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth i genedlaethau'r dyfodol ar gyfer astudio ac ymchwil.

Mae'r dogfennau, a adawyd i'r Brifysgol dros ganrif yn ôl drwy garedigrwydd Syr Hugh Owen a George Powell o Nanteos (1842-1882), yn cynnwys 17 o lythyrau a dau sgôr corawl y tybir sydd wedi'u llofnodi gan y pianydd, yr arweinydd a'r cyfansoddwr Rhamantaidd o'r Almaen.

Yr Athro Iwan Morus a coil anwythiad oedd yn cael eu defnyddio o'r 1830au. Rhwng o ddeutu 1890 a 1920 roeddent yn cael eu defnyddio i gynhyrchu foltedd uchel er mwyn creu tonnau electromagnetaidd h.y. radio

Dyfarnwyd £750,000 i'r Athro Iwan Morus o'r Adran Hanes a Hanes Cymru, ynghyd ag ymchwilwyr o brifysgolion Efrog a Newcastle, er mwyn astudio sut y rhagwelwyd y dyfodol gan awduron a darllenwyr ffuglen wyddonol yn yr 20fed ganrif trwy ddatblygiadau gwyddonol newydd.

Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau sy'n cyllido'r astudiaeth, *Unsettling Science: expertise, narrative and future histories.* Bydd y prosiect tair blynedd yn archwilio'r berthynas rhwng gwyddoniaeth, ffuglen a diwylliant poblogaidd drwy gydol yr 20fed ganrif dechnolegol hir (1887-2007), gan ganolbwyntio ar y ffordd y cafodd dyfeisiadau newydd ym maes gwyddoniaeth, technoleg a meddygaeth eu defnyddio gan awduron, llunwyr polisi a'r cyhoedd yn gyffredinol i ragweld a meddwl am y dyfodol.

Ym mis Mawrth, profodd gwyddonwyr Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylchedd a Gwledig bod tyfu bysedd-y-blaidd (*Lupinus*) yn darparu ffynhonnell amgen o brotein, cystal â soia, i borthiant anifeiliaid a physgod yng ngwledydd Prydain.

Daeth potensial tyfu bysedd-y-blaidd ar gyfer porthiant yn hytrach na mewnforio soia yn amlwg trwy'r prosiect tair blynedd hwn a ddangosodd fod da byw, ieir a physgod a gafodd borthiant yn cynnwys bysedd-y-blaidd yn perfformio llawn cystal, ac mewn rhai achosion yn well, na'r rhai a gafodd ddognau tebyg o borthiant yn cynnwys soia.

Yn sgil canlyniadau'r prosiect, a ariannwyd gan 10 partner yn y diwydiant, Innovate UK, a'r BBSRC, bydd ffermwyr yn cael eu cynghori bod bysedd-y-blaidd a dyfir yma yn gallu darparu protein cystal â soia.

> *"95% o ymchwil y Brifysgol o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch"*
>
> (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)



Ym mis Hydref, cafodd peirianwaith newydd ar gyfer adeiladu cyfrifiaduron cwantwm ei gynnig gan dîm rhyngwladol o wyddonwyr, dan arweiniad Dr Daniel Klaus Burgarth o'r Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg.

Mae'r gwyddonwyr yn rhan o ymdrech fyd-eang i adeiladu cyfrifiaduron cwantwm mawr a fydd yn gallu perfformio rhai cyfrifiadau cymhleth iawn mewn amser byr, tasgau a fyddai'n cymryd miloedd o flynyddoedd i'w cwblhau i'r cyfrifiaduron mwyaf pwerus heddiw.

Mewn papur yn y cyfnodolyn gwyddonol *Nature Communications*, disgrifiodd Dr Burgarth a'r gweddill sut y gallai aml arsylwadau o floc adeiladu sylfaenol system cwantwm, 'qubit', arwain at greu cyfrifiaduron llawer mwy pwerus.

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd Saffari a Chynhadledd *Mischanthus* 2014 gan Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Cnwd ynni addawol yw *Miscanthus* sydd, ar y cyd â phartneriaid academaidd a masnachol yn y DG, yr UE ac UDA, yn cael ei wella drwy fridio mathau hybrid yn seiliedig ar hadau yn IBERS.

Cafodd *Miscanthus*, neu Glaswellt Eliffant Asiaidd, ei fridio yng Ngogerddan ers 2004, mae'n laswellt lluosflwydd ag iddo gynnyrch egni uchel o'i gymharu â lefel mewnbwn. Mae'n gnwd a allai fod yn ddeniadol i arallgyfeirio busnesau fferm yng Nghymru heddiw, gan gynyddu ynni adnewyddadwy heb danseilio diogelwch bwyd.

A yw embryo'n gallu dysgu? Os ydych chi'n embryo malwoden, mae'n debyg eich bod!

Gall malwod llyn *(lymnaea stagnalis)* synhwyro cemegion sy'n cael eu rhyddhau gan eu rheibwyr a hwythau yn embryo yn yr ŵy, a gallant newid eu hymddygiad yn unol â hynny.

Wrth ysgrifennu yn y cyfnodolyn ar-lein *Freshwater Biology* ym mis Rhagfyr, dangosodd Dr Sarah Dalesman o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, ynghyd ag ymchwilwyr o brifysgolion Caerwysg (Exeter) a Plymouth, fod malwod, os ydynt yn ymgyfarwyddo ag arogl rheibwyr yn ystod y cyfnod datblygu cynharaf hwn, yn gallu osgoi pysgod ysglyfaethus yn well ar ôl deor.

Mae Dr Roger Santer o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig wedi dilyn trywydd hollol newydd i ddeall sut mae pryfed tsetse yn gweld yr abwydau lliw a ddefnyddir i'w dal, a pham y cânt eu denu at wahanol liwiau.

Mae pryfed tsetse yn trosglwyddo'r trypanosomiasis Affricanaidd dynol neu'r 'Clefyd Cysgu' yn Affrica is-Saharaidd, clefyd a all fod yn farwol. Defnyddir abwydau gweledol a maglau i ladd neu ddal y pryfed tsetse, ac mae'n un o'r dulliau mwyaf effeithiol o reoli lledeniad y clefyd.

Sarah Beynon, myfyrwraig PhD IBERS gyda defaid Beulah

Cafodd defaid eu dofi tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl, ond ychydig oedd yn hysbys cyn hyn am eu hanes, yr amrywiaeth genetig a'r berthynas rhwng bridiau Cymreig â rhai Ewropeaidd. Bydd deall y berthynas rhwng bridiau o Gymru, y DG a gweddill Ewrop yn cynorthwyo strategaethau bridio a nod y strategaethau hyn yw gwella cynhyrchu drwy ostwng costau, cynyddu effeithlonrwydd, gwella iechyd anifeiliaid, a monitro mewnfridio.

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd papur yn *BMC Genetics* yn nodi canfyddiadau Sarah Beynon, myfyrwraig PhD yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol Amgylcheddol a Gwledig (IBERS); Dr Gancho Slavov IBERS, a Dr Denis Larkin gynt o IBERS ond bellach yn y Coleg Milfeddygol Brenhinol yn Llundain. Dengys y canfyddiadau bod geneteg y bridiau Cymreig brodorol a thechnegau cyfoes o ddethol genetig yn cynnig cyfle i fridwyr yng Nghymru ddatblygu diadelloedd masnachol y gellir eu cymharu â bridiau masnachol tebyg i Texel, ond sy'n addasu'n well i'r amgylchedd lleol.

Ddydd Gwener 12 Rhagfyr, 2014, dangoswyd yr olaf o dair ffilm yr *Hobbit, The Battle of the Five Armies* am y tro cyntaf mewn sinemâu yn y Deyrnas Gyfunol. Ar yr un dydd, lansiodd academyddion ym Mhrifysgol Aberystwyth y prosiect ymchwil mwyaf uchelgeisiol a gynhaliwyd erioed i gynulleidfaoedd ffilm.

Bu hyd at 140 o ymchwilwyr mewn 46 o wledydd yn cydweithio ar Brosiect Hobbit y Byd - www.worldhobbitproject.org - i gael ymatebion i arolwg a gynlluniwyd er mwyn deall holl ystyron ffantasi i bobl ledled y byd.

Arweiniwyd y prosiect gan yr Athro Martin Barker (chwith) a'r Athro Matt Hills o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Cyhoeddodd Rhewlifegwyr o Brifysgol Aberystwyth bapurau mewn nifer o gyhoeddiadau amlwg iawn yn ystod y flwyddyn.

Cyhoeddodd Samuel Doyle a thîm rhyngwladol o gydweithwyr o Ganolfan Rewlifeg y Brifysgol ganlyniadau astudiaeth yn *Nature Geoscience*, yn dangos bod llen iâ'r Ynys Las yn cyflymu mewn ymateb i law yn disgyn ar yr wyneb a rhew wedi toddi sy'n cael eu cysylltu â stormydd seiclonig diwedd yr haf a'r hydref.

Mae tîm rhyngwladol o ymchwilwyr, yn cynnwys yr Athro Neil Glasser o'r Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear, wedi darganfod bod rhewlifau bach sy'n dod i ben ar dir o amgylch Penrhyn yr Antarctig yn agored iawn i newidiadau bach yn nhymheredd yr aer a gallent fod mewn perygl o ddiflannu mewn 200 mlynedd. Yn ôl yr ymchwil, a gyhoeddwyd yn *Nature Climate Change*, ni fydd mwy o eira'n syrthio yn atal i'r rhewlifoedd barhau i doddi yng ngogledd Penrhyn yr Antarctig.

Mae astudiaeth, a gyllidir gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, yn defnyddio mesuriadau maes newydd i gyfarwyddo'r model rhifyddol sydd wedi canfod bod llen iâ'r Ynys Las yn fwy sensitif i newidiadau hinsawdd nag a dybiwyd yn flaenorol. Seiliwyd y canfyddiadau ar fodel 3D o'r llen iâ a ddatblygwyd gan ymchwilwyr o Brifysgol Caergrawnt a'i gyfyngu gan fesuriadau maes manwl a gymerwyd ar y llen iâ gan Brifysgol Aberystwyth. Cyhoeddwyd y canfyddiadau hyn yn y cyfnodolyn *Nature Communications* ym mis Medi 2014.

Roedd Dr Huw Morgan (canol) yn aelod blaenllaw o dîm rhyngwladol fu'n astudio clip haul 2015.

Ym mis Gorffennaf, dyfarnwyd Cymrodoriaeth Ymchwil gan Ymddiriedolaeth Leverhulme i Dr Huw Morgan o'r Adran Ffiseg ar gyfer mapio a rhagweld tywydd y gofod.

Bwriad y prosiect yw datblygu system mapio 3-D awtomataidd i ganfod a lleoli Chwistrelliadau Màs Coronaidd - ffrwydriadau solar sy'n rhyngweithio â magnetosffer y ddaear.

O dan amodau penodol, mae'r ffrwydradau solar hyn yn ddigon pwerus i ymyrryd â seilwaith dynol megis lloerennau, gan amharu ar systemau cyfathrebu ar y ddaear. Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod y ffrwydriadau hefyd yn effeithio ar hinsawdd y ddaear.

O allu canfod y ffrwydriadau'n fwy effeithiol, gellir nabod a rhagweld ffrwydriadau solar sy'n agosáu at y Ddaear, a thrwy hynny rhoi mwy o rybudd a chael gwell dealltwriaeth o'r effeithiau.

Yr Athro Alan Clarke, Sarah Wydall a'r Athro John Williams

Ym mis Ionawr lansiwyd astudiaeth newydd yn Adran y Gyfraith a Throseddeg ar gyfiawnder a cham-drin pobl hŷn. Arweinir y prosiect gan yr Athro Alan Clarke, yr Athro John Williams a Sarah Wydall ac fe'i gyllidir gan grant ymchwil o £890,000 gan y Loteri Fawr. Un o ganolfannau ymchwil Adran y Gyfraith a Throseddeg sy'n ymgymryd â'r gwaith, sef y Ganolfan Astudio Heneiddio, Cam-drin ac Esgeuluso.



Dr Dave Langstaff a'r ffwrnais esgyn-wresogi

Mae ymchwilwyr yn yr Adran Ffiseg wedi datblygu ffwrnais esgyn-wresogi, sy'n gallu cyrraedd tymheredd uwch na hanner tymheredd wyneb yr Haul, ar gyfer prifysgol flaenllaw yn Tsieina. Dyma'r cytundeb cyntaf o bwys i'r Adran Ffiseg ei sicrhau gyda phrifysgol flaenllaw yn Tsieina, a chafodd y ffwrn ei hallforio i Brifysgol Technoleg Wuhan ychydig cyn y Nadolig 2014.

Prosiect Tyllu Chew Bahir: Paratoi i dynnu rhan o'r craidd sydd o fewn y lawes fewnol o'r rod dyllu isaf © Verena Foerster, Prifysgol Potsdam

Yr Athro Henry Lamb o'r Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear oedd arweinydd tîm ymchwil o'r DG sy'n rhan o brosiect rhyngwladol i ddrilio'n ddwfn iawn mewn llyn sych yn nwyrain Affrica er mwyn gweld sut y mae newidiadau hanesyddol yn yr hinsawdd wedi dylanwadu ar esblygiad y ddynolryw a'u patrymau mudo.

Bydd Prosiect Tyllu Bahir Chew, mewn rhan anghysbell o dde Ethiopia, yn darparu cofnod gwaddodol o newidiadau mewn glaw, tymheredd a llystyfiant sy'n ymestyn nôl dros y 500,000 flynyddoedd diweddaraf yn esblygiad y ddynolryw.

Mae ymchwil newydd gan Dr Lucy Taylor, o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn datgelu sut yr oedd sefydlu'r wladfa, yn nhalaith Patagonia, Yr Ariannin, lle'r ymgartrefodd y Cymry yn 1865, yn rhan annatod o wead cymhleth deinameg grym, arian a syniadau ledled y byd.

Tan nawr, mae'r hanes am sefydlu'r Wladfa wedi canolbwyntio ar fywydau'r Cymry yn bennaf. Ond, yn rhifyn mis Mai o Planet - *The Welsh Internationalist,* mae Dr Taylor yn gosod Y Wladfa o fewn i gyd-destun y gymdeithas gynhenid ac adeiladu cenedl yr Ariannin.

Ar sail dyddiaduron, cofiannau a phapurau newydd, mae ymchwil Dr Taylor yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng y gwladychwyr Cymreig a'r bobl frodorol, sef perchnogion y tir lle'r ymsefydlodd y Cymry.

Mae dros 300 miliwn o bobl bob blwyddyn yn cael eu heintio gan y llyngyr parasitig, helminth. Mae'r clefydau a achosir gan y llyngyr ymhlith 17 ar restr Sefydliad Iechyd y Byd o glefydau sy'n cael eu hesgeuluso, ac maent yn nodweddiadol gronig ac weithiau'n farwol.

Y parasitolegydd o Brifysgol Aberystwyth, yr Athro Karl Hoffman, oedd prif awdur yr erthygl *Halting harmful helminths; Vaccines and new drugs are needed to combat parasitic worm infections* a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn 'Science' ym mis Hydref 2014.

Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau cwbl flaengar o ddefnyddio'r llyngyr er mwyn creu brechlynnau a chyffuriau i'w rheoli. Mae'r Athro Hoffman yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol George Washington, Washington D.C. a Sefydliad Sanger Ymddiriedolaeth Wellcome yng Nghaergrawnt.

Meithrin ein cysylltiadau â'r byd

Adeiladu ar ein henw da rhyngwladol, denu myfyrwyr a staff o bedwar ban byd, a chydweithredu â phartneriaid a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Cafodd y ffilm *DRY (I want to be a girl again)*, sy'n cael ei disgrifio fel "un o'r prosiectau ffilm Affricanaidd mwyaf perthnasol yn gymdeithasol a wnaed erioed", ei dangos am y tro cyntaf yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar ddiwedd Tachwedd 2014.

Seiliwyd y ffilm yn Aberystwyth a Nigeria ac fe'i cynhyrchwyd gan Next Page Productions. Mae'r ffilm yn trafod merched ifanc sy'n cael eu gorfodi i briodi a'r cyflwr meddygol Ffistwla'r Bledren a'r Wain (VVF).

Cafodd y ffilm ei hysgrifennu, ei chyfarwyddo a'i chynhyrchu gan Stephanie Linus (née Okereke), sydd hefyd yn chwarae rhan y prif gymeriad. Cynhyrchwyd y ffilm mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a darparwyd cymorth technegol gan fyfyrwyr yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Roedd aelodau'r cast yn bresennol yn y dangosiad cyntaf a chafwyd cyfraniadau gan Dr Mrs Precious Gbeneol, Cynghorydd Arbennig Llywydd Nigeria, a Victor Emanuel Smith, Uwch Gomisiynydd Gweriniaeth Ghana.

Dr Mrs Precious Gbeneol, Stephanie Linus, a'r Athro April McMahon

Yn Awst 2014, fe wnaeth Prifysgol Aberystwyth lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda Choleg Polytechnig Ffederal Ado-Ekiti yn Nigeria. Mae'r Memorandwm yn ffurfio sail ar gyfer datblygu cyfres o raglenni ar y cyd rhwng Ado-Ekti a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig mewn meysydd fel diogelwch bwyd; Sgistosomiasis, (clefyd parasitig sydd yn gyffredin yn Is-Sahara Affrica); ymchwil i fapio Malaria a gwaith ar nodi cynhyrchion naturiol gan feddyginiaethau perthnasol.

Dr Charles Ologunde, Dr Theresa Taiwo Akande, Yr Athro April McMahon a Mrs Adeniran Stephania Odusade

Roedd cynrychiolwyr Google, Microsoft, y Comisiwn Ewropeaidd, UNESCO ac academyddion o ddwy ochr môr Iwerydd ymhlith y cynadleddwyr mewn cynhadledd ryngwladol ar sensoriaeth y rhyngrwyd a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym mis Medi. Trefnwyd y gynhadledd oedd yn dwyn yr enw 'Symposiwm ar Awdurdodaeth y Rhyngrwyd: Cyfraith Genedlaethol yn erbyn Cyfathrebu Ar-lein Byd-eang - Ail-Negodi Westffalia?', gan adrannau Cyfraith a Throseddeg, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol y Brifysgol.

Trefnydd y gynhadledd, Dr Uta Kohl o Adran y Gyfraith a Throseddeg



Torlun pren gan Xie Minjie

Fis Hydref, bu Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth yn croesawu pedwar artist o Changsha, Talaith Hunan, Tsieina, a fu'n ymweld ag Arddangosfa Gyfoes Printiau Tsieineaidd yn yr Ysgol Gelf.

Curadwyd yr arddangosfa gan Paul Croft, Darlithydd mewn Printiau yn yr Ysgol Gelf. Roedd yn cynnwys dros saith deg o brintiau gan 28 o wneuthurwyr printiau gan gynnwys aelodau o'r Gymdeithas Printiau Hunan yn ogystal â phrintiau gan fyfyrwyr o Brifysgol CCS, Prifysgol Normal Changsha (CNU) a'r Ysgol Gelf ym Mhrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Hunan.

Ym Mai 2014 teithiodd Paul Croft i Changsha ar gyfer agoriad y sioe gyntaf, 'Jie' (Borders), arddangosfa ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Canolbarth De Changsha ym Mharc Celf Rhyngwladol Changsha Houhu. Yn ystod yr ymweliad, traddododd Paul ddarlithoedd ym mhob un o'r tair prifysgol a chynnal gweithdy lithograffeg pedwar diwrnod i 30 o fyfyrwyr.

Gyda myfyrwyr o fwy na 90 o wledydd ar draws y byd yn perthyn iddi, dathlodd y Brifysgol gyfraniad ei chymuned ryngwladol ym mis Mawrth drwy drefnu wythnos o ddathliadau yn ystod Wythnos Un Byd, a drefnwyd gan Swyddfa Ryngwladol y Brifysgol ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr. Ymhlith y digwyddiadau yr oedd noson i ddathlu ein cysylltiadau ers tro â Maleisia, noson fawr i ddathlu doniau rhyngwladol, a thrafodaeth ar fewnfudo a myfyrwyr rhyngwladol yn cynnwys cyfraniadau gan gynrychiolwyr o blith y myfyrwyr rhyngwladol ac ymgeiswyr yr Etholiad Cyffredinol yng Ngheredigion.

> *2il yn y Deyrnas Gyfunol am gymorth iaith*
>
> (arolwg i-graduate 2013)

Myfyrwyr o Ysgol Gristnogol Ryngwladol Cymru Corea sy'n astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd, gyda chyfarwyddwr Canolfan Saesneg Ryngwladol y Brifysgol, Rachael Davey.

Yn Rhagfyr 2014 ffurfiodd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth bartneriaeth unigryw ag Ysgol Gristnogol Cymru Corea ger Seoul.

Sefydlwyd yr ysgol yn 2008, ond mae'r cysylltiad rhwng Cymru a Chorea yn dyddio yn ôl i 1866, pan wnaeth y cenhadwr Cymreig Robert Jermain Thomas ledaenu'r athrawiaethau Protestannaidd yn Nwyrain Asia.

Yn ystod tri mis cyntaf 2015, bu 12 myfyriwr o KWICS yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan integreiddio'n llwyddiannus yn y brifysgol a'r gymuned leol. Fe wnaeth yr ysgol hefyd ddarparu dau soddgrwth a dwy ffidil i'w myfyrwyr eu chwarae yng Nghanolfan Fethodistaidd St. Paul yn Aberystwyth, lle maent yn aelodau gweithgar o'r gynulleidfa.

Anna Sharad Gautam a Katharina Hopp

Yn dilyn y daeargryn trychinebus a darodd Nepal yn ystod Ebrill 2015, aeth aelodau o'r Gymdeithas Myfyrwyr Rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth ati i godi arian i gefnogi'r gwaith ailadeiladu.

Roedd Anna Sharad Gautam, sydd o brifddinas Nepal Kathmandu, a Katharina Hopp o Oldenburg, ger Bremen yng ngogledd yr Almaen, yn astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Trydydd Byd, ac aeth y ddwy ati i godi arian ar gyfer Apêl Daeargryn Nepal y Groes Goch Brydeinig.

Yn y dyddiau yn dilyn y daeargryn, bu Dr Tony Callaghan a gwblhaodd ei PhD yn IBERS yn Chwefror 2015, yn helpu i sicrhau cyflenwad dŵr glân yn Kathmandu yn Nepal, ac ardal fwy anghysbell Nuwakot, i'r gogledd-orllewin o'r brifddinas.

Roedd Tony yn cydweithio â'r cwmni anlywodraethol, di-elw o'r Almaen, Arche Nova, gan ddarparu arbenigedd dadansoddol cemegol a biolegol i asesu ansawdd dŵr yfed cyn ac ar ôl iddo gael ei buro, a barnu pa mor addas ydoedd i gael ei yfed gan ddyn.

Treuliodd Callum Scotson, myfyriwr gwyddor planhigion yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, fis Mehefin 2015 yn astudio ym Mhrifysgol India'r Gorllewin, Trinidad, ar ôl derbyn cyllid gan y Gymdeithas Amaethyddiaeth Drofannol i gwblhau ei ymchwil ar gyfer ei draethawd hir israddedig ar flodau cacao. Mae ei waith ymchwil yn ddilyniant o astudiaethau blaenorol a wnaeth ganfod fod blodau sy'n tyfu o foncyff y goeden gacao yn dwyn mwy o hadau cacao na'r blodau sy'n tyfu ar ei changhennau.

Ym mis Gorffennaf derbyniodd yr Athro Mark Macklin a'i dîm £300,000 oddi wrth gynllun partneriaeth Newton-Al-Farabi y Cyngor Prydeinig i ddatblygu strategaeth rheoli adnoddau dŵr yn seiliedig ar dystiolaeth yn ne Kazakhstan.

Fel rhan o'r prosiect, bydd gwaith maes yn cael ei wneud i werthuso effaith cloddio am fetel nawr ac yn y gorffennol ar ansawdd dŵr a gwaddod yn yr ardal, asesu bygythiad llifogydd a gweld pa mor agored yw cymunedau i newid hinsawdd, a lliniaru'r problemau hyn drwy gynhyrchu polisïau i wella gwydnwch yn erbyn straen dŵr.

Bydd y tîm yn cydweithio â phrifysgolion yn Kazakhstan, a Sefydliad Daearyddiaeth sydd wedi ei ariannu gan y Llywodraeth yn Almaty, i wneud y gorau o'r cyfle i rannu gwybodaeth a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o reolwyr adnoddau dŵr yn Kazakhstan.

Yr Athro Mark Macklin

Buddsoddi yn ein dyfodol

Tyfu ein hadnoddau a buddsoddi yn ein hamgylchedd i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gan sicrhau cynaliadwyedd a thwf Aberystwyth yn y dyfodol.

Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Gweinidog Cyllid a Busnes Llywodraeth Cymru Jane Hutt, mai Campws Arloesi a Menter Aberystwyth ar gampws Gogerddan y Brifysgol fyddai'r cynllun cyntaf gwerth miliynau o bunnoedd i dderbyn y golau gwyrdd drwy raglenni cyllid newydd yr Undeb Ewropeaidd 2014-2020 sydd werth £2 biliwn.

Bydd y Campws Arloesi, gyda buddsoddiad o ddeutu £40.5m, yn cynnwys adnodd o'r radd flaenaf a fydd yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol er mwyn denu mwy o gyllid ymchwil fel bod cwmnïau ac ymchwilwyr yn gallu cydweithio ar gynlluniau ymchwil i hybu'r bio-economi. Disgwylir i'r gwaith ymchwil greu cynnyrch, gwasanaethau a chwmnïau deillio arloesol newydd yn y sectorau bwyd, iechyd, biotechnoleg ac ynni adnewyddadwy.

Yn ogystal â'r buddsoddiad o £20m o Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, mae'r Campws yn derbyn £12m gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC) ac £8.5m oddi wrth y Brifysgol.

Ym mis Chwefror 2015 cynhaliodd Prifysgol Aberystwyth ei 'Wythnos Werdd' gyntaf. Trefnwyd yr wythnos gan Dîm Cynaliadwyedd y Brifysgol ar y cyd ag Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, a chynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys nosweithiau ffilm, teithiau cerdded campws, a sesiwn glanhau'r traeth. Rhoddwyd yr arian a godwyd yn ystod yr wythnos i WWF Cymru.

Ym mis Ionawr 2015, croesawodd Prifysgol Aberystwyth y myfyrwyr cyntaf i lety newydd £45m Fferm Penglais.

Mae Fferm Penglais yn union y tu ôl i bentref myfyrwyr arobryn Pentre Jane Morgan, ac o fewn pellter cerdded hawdd i gampws Penglais a Chanolfan Llanbadarn y Brifysgol.

Ysbrydolwyd dyluniad y datblygiad newydd gan dirwedd a phensaernïaeth Cymru wledig, ac mae'n lletya 1000 o fyfyrwyr gydag ystafelloedd gwely en-suite helaeth, ceginau dwbl a lolfeydd cynllun agored. Er mwyn hyrwyddo gweithgareddau dysgu a chymdeithasol ceir canolfan, Y Sgubor, sy'n cynnwys adnoddau cymdeithasol a dysgu amrywiol gan gynnwys golchdai, storfa beiciau, gofod cymunedol ar gyfer clybiau a chymdeithasau, a chaffi.

Y Sgubor



Ym mis Awst 2014 agorodd Prifysgol Aberystwyth Academi Aber, canolfan newydd sy'n hwyluso creu adnoddau dysgu amlgyfrwng gan ddefnyddio sain, fideo ac animeiddio i wella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyriwr.

Buddsoddwyd £200,000 yn Academi Aber, ac mae'n cynnig hyfforddiant i aelodau o staff ar ddefnyddio technoleg yn effeithiol, yn ogystal â bod yn lle i gyfnewid syniadau a rhannu arfer da o ran dysgu ac addysgu.

Dirprwy Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, Elizabeth France (canol) yn agor yr adnoddau dysgu ac addysgu newydd yn Adeilad Llandinam, gyda Nigel Thomas, Rheolwr Dylunio a Datblygu Gofod Dysgu a'r pensaer Nia Jeremiah.

Cwblhawyd cymal diweddaraf rhaglen fuddsoddi £8.1m i uwchraddio cyfleusterau addysgu a dysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi 2014, mewn da bryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Uwchraddiwyd deg ystafell ddarlithio a seminar, a mannau dysgu ac astudio yn Adeilad Llandinam, gan osod yr offer clyweled diweddaraf a dodrefn newydd y gellir eu haddasu i adlewyrchu nifer o wahanol anghenion dysgu ac addysgu, o waith grŵp i drefn seminarau neu ddarlithoedd mwy traddodiadol.

"Cafodd Aberystwyth ei choroni 'Y Dref Orau' yng Ngwobrau Academi Trefoli 2015 ym mis Tachwedd 2014. Casglodd Aberystwyth y wobr am y Dref Orau am y gwaith blaenllaw a wnaethpwyd wrth hyrwyddo ei lleoliad, economi a'r gymuned."

Ym mis Rhagfyr 2014 sicrhaodd Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ei lle yn *InnoLife*, consortiwm o 144 o gwmnïau, sefydliadau ymchwil a phrifysgolion Ewropeaidd sy'n caniatáu iddyn nhw gyflwyno ceisiadau am €2.1bn o arian Ewropeaidd.

Dewiswyd *InnoLife* gan y Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewropeaidd (EIT) yn Gymuned Wybodaeth ac Arloesi (KIC) ar gyfer EIT Iechyd. Gyda chronfa o €2.1 biliwn, mae hon yn un o'r mentrau iechyd mwyaf yn y byd i'w chyllido gan arian cyhoeddus.

Nod *InnoLife* yw cyfrannu at wella gallu diwydiant yn Ewrop i gystadlu, gwella ansawdd bywyd dinasyddion Ewrop a chynaliadwyedd y system gofal iechyd. Bydd y bartneriaeth yn hyrwyddo entrepreneuriaeth ac yn datblygu dyfeisiadau newydd ar gyfer byw'n iach a heneiddio gweithgar.

Penodiadau

Penodiadau Newydd

Penodwyd Daniel Benham, cyn Brif Swyddog Ariannol gyda Sefydliad y Fagloriaeth Ryngwladol, yn Gyfarwyddwr Cyllid i Brifysgol Aberystwyth. Yn raddedig o Goleg Imperial Llundain lle'r astudiodd Ficrobioleg, ymunodd Daniel Benham â Sefydliad y Fagloriaeth Ryngwladol yn 2006. Cyn hynny gweithiodd am 15 mlynedd mewn busnes gyda Schick Wilkinson Sword (Energizer, Pfizer a Warner Lambert) ac Oral B (Gillette).

Ymunodd Yr Athro Jo Crotty â'r Ysgol Rheolaeth a Busnes ym mis Gorffennaf 2015 yn Athro Rheolaeth a Chyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig. Gweithiodd Jo yn Ysgol Rheolaeth Prifysgol Lerpwl, Ysgol Fusnes Aston ac Ysgol Fusnes Salford ym Manceinion lle'r oedd yn Bennaeth Adran. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar wyrddio, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a datblygu cymdeithas sifil ar draws y cyn Undeb Sofietaidd a Tsieina; ac hefyd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a rhywedd.

Uwch Benodiadau



Penodwyd Ruth Owen Lewis yn Gyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol. Bu Ruth yn aelod o staff y Brifysgol ers 2001. Yn ystod ei chyfnod yn y Swyddfa Ryngwladol bu'n Swyddog Rhyngwladol â chyfrifoldeb am Dde Asia, Maleisia, Gwlad Thai, Nigeria, Norwy a Thwrci, yn Rheolwr Partneriaethau Rhyngwladol, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr ac am y flwyddyn ddiwethaf bu'n Gyfarwyddwr Dros Dro.

Yr Athro Mike Christie yw Pennaeth newydd yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, sy'n rhan o Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth. Graddiodd yr Athro Christie mewn amaethyddiaeth o Brifysgol Aberdeen, a dyna hefyd lle y cwblhaodd ei ddoethuriaeth mewn Economeg Amgylcheddol. Yn 1996, cafodd ei benodi'n Ddarlithydd Economeg Amgylcheddol yn Sefydliad Astudiaethau Gwledig Prifysgol Aberystwyth cyn cael ei benodi'n Athro Economeg Amgylcheddol ac Ecolegol yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes yn 2012.

Secondiwyd Dr David Poyton, Darllenydd yn y Gyfraith, i arwain Cangen-Gampws y Brifysgol ym Mawrisiws. Yn rhinwedd ei swydd yn Ddeon bydd Dr Poyton yn gyfrifol am sefydlu, gweithredu a datblygu'r campws yn ogystal â'i bortffolio academaidd ac ymgysylltu â chymunedau yn Mawrisiws ac yn rhyngwladol. Bu Dr Poyton yn astudio fel myfyriwr is-raddedig ac uwch-raddedig yn Aberystwyth a dyfarnwyd iddo Ddoethuriaeth ar y modd y mae egwyddorion a chysyniadau cyfreithiol yn cael eu defnyddio ym maes masnach electronig.

Cadeiriau Personol

Dyfarnwyd Cadair Bersonol i'r aelodau staff isod yn 2014-15:

Yr Athro Athole Marshall
Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Yr Athro John Warren
Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Yr Athro Matthew Francis
Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Yr Athro Peter Merriman
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Yr Athro Sian Eleri Pryse
Adran Ffiseg

Yr Athro Stephen Tooth
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

Yr Athro Michael Humphreys
Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

Yr Athro Paul O'Leary
Adran Hanes a Hanes Cymru

Anrhydeddu deuddeg yn 2015

Yn ystod seremonïau Graddio 2015, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, cyflwynwyd wyth Cymrodoriaeth er Anrhydedd. Cyflwynir Cymrodoriaeth o'r fath i unigolion sydd â chysylltiad agos â'r Brifysgol, neu a wnaeth gyfraniad eithriadol i fywyd proffesiynol neu gyhoeddus yng Nghymru.

Cyflwynwyd dwy radd Doethuriaeth Er Anrhydedd i unigolion a fu'n eithriadol llwyddiannus yn eu meysydd, neu sydd wedi cyflawni a chyhoeddi ymchwil nodedig iawn ers blynyddoedd. Cyflwynwyd graddau Baglor Er Anrhydedd i aelodau o'r gymuned leol a wnaeth gyfraniad sylweddol i Aberystwyth a'r ardal.

Eleni, cyflwynwyd y canlynol:

Eurwen Richards, cyn Lywydd y Gymdeithas Technoleg Llaeth a'r fenyw gyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i fod yn Feistr Caws.



Yr Athro Robin Williams CBE, ymchwilydd mewn ffiseg lled-ddargludyddion, Cymrawd y Gymdeithas Frenhinol a cyn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe.

Yr Athro Miguel Alario-Franco, ymchwilydd mewn cemeg cyflwr soled a cyn Lywydd Academi Frenhinol y Gwyddorau, Sbaen.

Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-Ysgrifennydd Seneddol i'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd a Swyddfa Cymru a chyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth.

Debbie Moon, Awdur arobryn BAFTA y gyfres deledu *WolfBlood*, cyfrannwr i gyfres *Y Gwyll* a chyn-fyfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth.

Dr Francesca Rhydderch, nofelydd arobryn, cyn-olygydd y *New Welsh Review* ac Athro Cyswllt mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Abertawe.

Dr Lyn Evans, ymchwilydd mewn ffiseg egni uchel ac arweinydd y tîm fu'n gyfrifol am gynllunio, adeiladu a chomisiynu'r Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr.

Iolo Williams, cyflwynydd dros 20 o gyfresi natur i'r BBC ac S4C yn cynnwys *Springwatch, Autumnwatch* a *Winterwatch*, a chyn swyddog rhywogaethau'r RSPB yng Nghymru.

Ddydd Sadwrn 8 Tachwedd, mewn seremoni yn Kuala Lumpur, urddwyd Ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz ibni Almarhum Tuanku Munawir, yr unfed ar ddeg Yang di-Pertuan Besar o Negeri Sembilan, Maleisia, yn Gymrawd Prifysgol Aberystwyth.

Graddau Doethur Er Anrhydedd:

Dylan Iorwerth, bardd ac awdur arobryn, cyflwynydd teledu a radio, sylfaenydd a Golygydd-Gyfarwyddwr *Golwg Cyf* a chyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth.

Yr Athro Huw Cathan Davies OBE, Cymrawd y Gymdeithas Feteoroleg Frenhinol, cyn ymchwilydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn NASA yn Virginia a chyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth.

Graddau Baglor Er Anrhydedd:

Rhian Phillips, cyn-Bennaeth Ysgol Gynradd Plascrug a Llysgennad Dysgu Ysgolion Rhyngwladol dros Gymru.



Bryn Jones, cydlynydd Fforwm Cymunedol Penparcau ac un o sylfaenwyr y grŵp celfyddydau a gofal iechyd lleol, HAUL.

Ffeithiau a Ffigurau

Cyfanswm y cofrestriadau addysg uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2014-15 oedd 9, 837 (7,979 cyfwerth ag amser llawn). Astudiodd 104 o'n myfyrwyr mewn sefydliadau partner dramor o dan y rhaglen ERASMUS+. Yn ogystal â hyn cafwyd 3,007 o gofrestriadau ar gyfer cyrsiau Addysg Bellach a ddarparwyd yn Aberystwyth ac mewn colegau Addysg Bellach ledled Cymru.

Facts and Figures

The total number of higher education student registrations with Aberystwyth University in 2014-15 was 9, 837 (7,979 full-time equivalent). 104 of our students studied with partner institutions overseas under the ERASMUS+ programme. There were also 3,007 student registrations for FE level courses delivered both at Aberystwyth and at FE colleges across Wales.

Incwm / Income

£13,629,000	Grantiau'r Cyrff Cyllido Funding Body Grants	
£64,685,000	Ffioedd Dysgu Tuition Fees	
£21,627,000	Grantiau a Chontractau Ymchwil Research Grants and Contracts	
£995,000	Incwm Gwaddolion a Buddsoddiadau Endowments and Investment Income	
£13,579,000	Neuaddau Preswyl, Arlwyo a Chynadleddau Residences, Catering and Conferences	
£2,580,000	Gwasanaethau a Ddarparwyd Services Rendered	
£3,489,000	Canolfan y Celfyddydau Arts Centre	
£10,501,000	Incwm Arall Other Income	



CYFANSWM / TOTAL = £131,085,000

Gwariant / Expenditure

£5,001,000	Adrannau Academaidd Academic Departments	
£3,303,000	Gwasanaethau Academaidd Academic Services	
£6,486,000	Grantiau a Chontractau Ymchwil Research Grants and Contracts	
£72,406,000	Costau Staff Staff Costs	
£5,412,000	Neuaddau Preswyl, Arlwyo a Chynadleddau Residences, Catering and Conferences	
£9,235,000	Adeiladau Premises	
£8,170,000	Addysg Gyffredinol General Education	
£2,356,000	Gweinyddu a Gwasanaethau Canolog Administration and Central Services	
£2,060,000	Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd Other Services Rendered	
£1,616,000	Canolfan y Celfyddydau Arts Centre	
£3,337,000	Treuliau Eraill Other Expenses	
£9,727,000	Dibrisiant Depreciation	

CYFANSWM / TOTAL = £129,109,000



Cyfathrebu, Marchnata a Materion Cyhoeddus
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DD

01970 622946
Ebost: cyfathrebu@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk

Cyhoeddwyd gan: Prifysgol Aberystwyth

Dyluniwyd gan: Y Stiwdio Ddylunio,
Prifysgol Aberystwyth

Communications, Marketing & Public Affairs
Aberystwyth University
Cledwyn Building, Penglais Campus
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DD

01970 622946
Email: communications@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk

Published by: Aberystwyth University

Designed by: The Design Studio,
Aberystwyth University